Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant

## Canllawiau Cynllun



Caru·Love
Ceredigion

# Y Cynllun

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored er mwyn cynnig y cyfle i hyfforddi fel Gweithiwr Cymdeithasol ar hyd llwybr hyfforddeiaeth noddedig.

Mae'r Cynllun yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wneud y canlynol:

- Buddsoddi yn ei weithlu ar gyfer y dyfodol
- Sicrhau cyflenwad lleol o Weithwyr Cymdeithasol cymwys
- Cynnig cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr Ceredigion
- Ymroi i gynyddu nifer y Gweithwyr Cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg

Gellir recriwtio i'r cynllun yn flynyddol, fodd bynnag Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol fydd yn gwneud penderfyniadau o ran recriwtio, a hynny'n seiliedig ar anghenion y gweithlu ac ystyriaethau ariannol.

# Yr Hyfforddeiaeth

Mae'r hyfforddeiaeth yn cynnwys cyfuniad o waith ymarferol a asesir a dysgu o bell. Bydd hyfforddeion yn cael eu croesawu i dîm o weithwyr cymdeithasol (y tîm cartref) drwy gydol yr hyfforddeiaeth a hefyd ar yr un pryd yn dilyn cwrs gradd anrhydedd BA mewn Gwaith Cymdeithasol, a hynny drwy'r Brifysgol Agored. Fel rheol mae hyn dros gyfnod o dair blynedd, fodd bynnag gellir addasu hyd y cwrs, gan roi ystyriaeth i unrhyw fodiwlau academaidd blaenorol y mae'r Hyfforddai eisoes yn meddu arnynt ym maes gwaith cymdeithasol.

Bydd gofyn i hyfforddeion gymryd rhan mewn lleoliadau ymarferol o fewn tîm neu asiantaeth gwaith cymdeithasol a bydd y lleoliadau ymarferol hynny'n cael eu hasesu. Ni fydd y lleoliadau ymarferol yn cael eu cynnal o fewn y tîm sydd wedi croesawu'r myfyriwr (y tîm cartref). Nodir timau amgen ar gyfer lleoliadau a bydd Addysgwr Ymarfer penodol yn gweithio gyda'r hyfforddai i asesu eu gwaith ymarferol.

Bydd hyfforddeion yn cael contract tymor penodol fel Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant a Chytundeb Cyfreithiol/Cytundeb Dysgu.

Bydd ymgeiswyr sy'n gweithio i'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd ac sy'n cael cynnig lle yn gorfod ymddiswyddo o'u swydd bresennol er mwyn derbyn contract tymor penodol fel Hyfforddai. Efallai y bydd hyn yn golygu newid cyflog i rai staff mewnol. Yn ogystal, bydd gan y sawl sy'n gweithio i'r Awdurdod ar hyn o bryd, yr hawl i wyliau blynyddol a buddion cronnus.

Bydd Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant yn cael eu talu ar gyflog Gradd 7 ar gyfer blwyddyn un y rhaglen 3 blynedd. Ar ôl cwblhau Blwyddyn 1 yn llwyddiannus a chyflawni'r Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol, bydd y cyflog yn cynyddu i Radd 8 ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3. Bydd disgrifiad swydd newydd yn adlewyrchu'r dilyniant o Radd 7 i Radd 8 yn cael ei gyhoeddi i'r Hyfforddai.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall hyfforddai wneud cais i ymestyn y contract hwn, bydd unrhyw benderfyniad i roi estyniad iddo yn amodol ar gymeradwyaeth y

Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Yn ystod cyfnodau ar leoliad, fel rheol bydd hyfforddeion ar leoliad o fewn tîm am bedwar diwrnod yr wythnos ac ar absenoldeb astudio un diwrnod yr wythnos er mwyn bodloni gofynion y cynllun.



# Recriwtio ar gyfer y Cynllun

Caiff llefydd gwag eu hysbysebu drwy gyfrwng safle gyrfaoedd y Cyngor a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a chaiff ymgeiswyr mewnol ac allanol ymgeisio. Amserir recriwtio i alluogi hyfforddeion i ymgymryd â'r swydd a dechrau ar raglenni academaidd y Brifysgol Agored ym mis Hydref. Bydd y broses recriwtio yn ymgorffori canllawiau, rheoliadau a gofynion y Brifysgol Agored a Chyngor Sir Ceredigion. Bydd Defnyddwyr y Gwasanaeth/Gofalwyr hefyd yn rhan o'r broses recriwtio a fydd yn cynnwys rhai/y cyfan o'r canlynol:

- Ffurflen gais
- Ymarfer ysgrifenedig
- Cyfweliad ffurfiol
- Ymarfer grŵp neu gyflwyniad

Fel cyflogwr sy'n 'hyderus o ran anabledd' bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud unrhyw addasiadau rhesymol o ran recriwtio a chyflwyno'r cynllun i hyfforddeion, er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau'n cael eu cynnwys.

Wedi derbyn cynnig i fod yn hyfforddai, bydd yn rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion gwiriadau cyn-gyflogi'r Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a bydd angen datgeliad DBS Manylach.

# Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Bydd gofyn i bob Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant gofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant gyda'r Corff Rheoleiddiol, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac os nad ydynt yn gallu gwneud hynny am ba bynnag reswm, yna byddant yn cael eu hatal rhag ymgymryd â'r swydd. Mae'n ofynnol i bob Hyfforddai a Gweithiwr Cymdeithasol cymwys weithio yn ôl Codau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru a chynnal y codau hynny.

# Rhaglen academaidd a cherrig milltir

Mae'r rhaglen academaidd yn cynnwys 3 lefel wahanol a phob un ohonynt yn cynnwys 120 credyd academaidd. Bydd gofyn i hyfforddeion gwblhau pob cam yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r cam nesaf. Cynigir cymorth ychwanegol os bydd angen, fodd bynnag bydd hyfforddeion yn ddarostyngedig i Bolisi Rheoli Perfformiad Cyngor Sir Ceredigion. Os nad yw hyfforddai yn gallu dangos y lefel o gymhwysedd sydd ei hangen i fodloni naill ai'r wedd ymarferol neu'r rhaglen academaidd, cynigir cefnogaeth ychwanegol, resymol. Fodd bynnag, os na chyrhaeddir y lefel o gymhwysedd o fewn amserlen y cytunwyd arni, ceidw'r Cyngor yr hawl i derfyn cytundeb yr Hyfforddai. Efallai y cynigir swydd amgen, ond mae hynny'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn ac yn ddibynnol ar lefydd gwag amgen addas.

# Absenoldeb astudio

Rhoddir absenoldeb astudio am 1 diwrnod yr wythnos am hyd y rhaglen academaidd, cytunir ar hyn o flaen llaw gyda Rheolwr y Tîm a'r Addysgwr Ymarfer.

# Gwyliau Blynyddol

Bydd hyfforddeion sy'n newydd i'r sefydliad yn derbyn y lwfans safonol ar gyfer gwyliau blynyddol. Bydd hawl hefyd i wyliau blynyddol a buddion cronnus gan unrhyw un sydd eisoes yn gweithio i'r awdurdod ac yn cael ei dderbyn ar y cynllun hyfforddiant. Ni ddylid cymeradwyo na chymryd gwyliau blynyddol yn ystod lleoliadau ymarferol.

Wedi cymhwyso, gall hyfforddeion sy'n dymuno mynychu eu Seremoni Raddio wneud hynny, gan ddefnyddio'u gwyliau blynyddol.



# Costau teithio a threuliau

Bydd modd i hyfforddeion hawlio costau teithio a threuliau wrth fynd ar ymweliadau yn ystod eu dyletswyddau. Bydd hawl ganddynt i hawlio costau teithio i ac o weithdai'r Brifysgol/lleoliadau tiwtorial. Yn ystod cyfnodau'r lleoliadau ni fydd hawl gan yr hyfforddai i hawlio costau teithio o'i gartref i safle'r lleoliad newydd.

# Yn Dilyn Cymhwyso

Wedi cwblhau'r Hyfforddeiaeth yn llwyddiannus, bydd gofyn i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso lenwi Mynegiant o Ddiddordeb ar gyfer swyddi gwag fel Gweithwyr Cymdeithasol a gallai'r swyddi hynny fod wedi eu lleoli o fewn unrhyw dîm gwaith cymdeithasol yng Ngheredigion. Pe bai gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso yn dewis peidio â derbyn swydd a gynigir iddo, yna gallai fod yn agored i orfod talu yn ôl naill ai'r cyfan neu ran o'i ffioedd academaidd.

Os cyfyd sefyllfa, lle nad oes unrhyw swyddi gwag i weithwyr cymdeithasol yna cynigir 'swydd bontio' fel 'Cynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol', swydd a delir ar Raddfa 8. Ni chaiff unigolyn ei gyflogi mewn 'swydd bontio' am fwy na dwy flynedd.

Mae disgwyliad y bydd unrhyw weithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso sydd wedi derbyn nawdd yn aros o fewn yr awdurdod am dair blynedd wedi cymhwyso. Os digwydd i'r gweithiwr cymdeithasol newydd gymwhyso benderfynu terfynu ei gyflogaeth yn ystod y tair blynedd, yna gall fod yn agored i orfod talu yn ôl naill ai'r

cyfan neu ran o'r ffioedd academaidd. Bydd y penderfyniad hwn yn nwylo'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

Wedi iddynt gael eu penodi, bydd gofyn i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso fodloni gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru a hynny yn ystod tair blynedd gyntaf eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys y rheidrwydd i gwblhau Tystysgrif Gadarnhau i Raddedigion mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol, sy'n orfodol er mwyn gallu adnewyddu cofrestriad 3 blynedd Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Amodau Gwaith

Bydd Hyfforddeion yn ddarostyngedig i bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. Bydd gofyn i Hyfforddeion gadw taflenni amser a bydd hawl ganddynt i weithio'n hyblyg yn dilyn cytundeb o flaen llaw gyda'r Rheolwr Tîm.

Bydd hyfforddeion yn cael mynediad perthnasol at gyfrifiadur ac efallai y bydd angen iddynt weithio wrth ddesgiau ar sail y 'cyntaf i'r felin'.

# Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach ynglŷn â gofynion y Radd Anrhydedd BA mewn Gwaith Cymdeithasol ewch i wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru.

http://www.open.ac.uk/courses/social-work/degrees/ba-social-work-wales-q42

Am fwy o wybodaeth am y cynllun i hyfforddeion cysylltwch â'r tîm Dysgu a Datblygu. Rhif ffôn: 01545 572670 neu e-bostiwch Dysgu@ceredigion.gov.uk

# Cytundeb Dysgu Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant

Mae'r Cytundeb Dysgu yn cwmpasu tymor penodol o 3 blynedd, sef y cyfnod hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol a chynhyrchir contract cyflogi hefyd i'r Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae'r cytundeb hwn yn amlinellu cyfrifoldebau bob parti a dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant, Rheolwr y Tîm sy'n croesawu'r hyfforddai (y tîm croeso), y Rheolwr Dysgu a Datblygu ac Addysgwyr Ymarfer ar gyfer pob lleoliad gytuno arno a'i lofnodi.

Mae'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth (y Tîm Dysgu a Datblygu) yn cytuno i wneud y canlynol:

1. Cefnogi'r Hyfforddai gyda'r cais ac wrth gofrestru ar Gynllun Gradd Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
2. Ariannu'r ffioedd dysgu academaidd a ffioedd y modiwlau fel a phan fo angen hynny
3. Clustnodi a dyrannu lleoliadau priodol posibl ar gyfer cyfnodau o waith ymarferol a asesir
4. Clustnodi Addysgwr Ymarfer (a lle bo hynny'n briodol Hwylusydd Ymarfer ar y safle) i gefnogi'r Hyfforddai ac asesu cyfnodau ymarferol mewn lleoliadau
5. Darparu mynediad at adnoddau (llyfrgell)
6. Darparu sesiynau i gynorthwyo'r myfyriwr a chyfleoedd hyfforddi mewnol
7. Gweithio gydag uwch reolwyr, rheolwyr tîm, addysgwyr ymarfer a staff prifysgol i ddatrys unrhyw broblemau, os cyfyd problemau.

Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant yn cytuno i wneud y canlynol:

1. Cwblhau'r holl ffurflenni a phrosesau cofrestru erbyn yr amserau penodol
2. Cwblhau holl ofynion y rhaglen astudio academaidd, gan gyflwyno gwaith erbyn yr amser penodedig
3. Cwblhau pob lleoliad ymarferol, gan arddangos y cymhwysedd angenrheidiol i fodloni'r safonau
4. Mynychu pob gweithdy/cyfarfodydd gyda thiwtoriaid a chydag Addysgwyr Ymarfer/Rheolwyr Tîm
5. Rhoi gwybod i'r Addysgwr Ymarfer/Rheolwr Tîm/Rheolwr Dysgu a Datblygu am unrhyw anawsterau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eu gallu i fodloni gofynion yr Hyfforddeiaeth
6. Cynnal Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar bob achlysur a chadw ei haelodaeth gofrestredig o 'Gofal Cymdeithasol Cymru'.

Mae Rheolwr y Tîm Cartref yn cytuno i wneud y canlynol:

1. Ymgynefino â gofynion rhaglenni Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol
2. Cefnogi'r Hyfforddai drwy gydol y rhaglen
3. Dyrannu gwaith i'r Hyfforddai yn seiliedig ar ofynion cyfnodau'r rhaglen a lefel gallu'r hyfforddai
4. Darparu unrhyw adroddiadau cynnydd yn ôl y gofyn
5. Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl i'r Rheolwr Dysgu a Datblygu am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â pherfformiad yr hyfforddai a gweithio gyda phob parti er mwyn datrys unrhyw broblemau.

6. Cefnogi'r Addysgwr Ymarfer a chysylltu gyda'r unigolyn hwnnw i asesu a chyflwyno adborth ar berfformiad yr Hyfforddai a phennu natur a lefel y gwaith sydd ei angen
7. Cytuno â'r Addysgwr Ymarfer a'r Hyfforddai pa ddiwrnod sy'n fwyaf addas ar gyfer abensoldeb astudio a chymeradwyo ceisiadau am wyliau blynyddol

Mae'r Addysgwr Ymarfer yn cytuno i wneud y canlynol:

1. Sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o ofynion y radd mewn gwaith cymdeithasol, safonau galwedigaethol cenedlaethol a sut mae cofnodi cynnydd o ran cynllun y Brifysgol
2. Cynnal cyfarfodydd goruchwylio swyddogol gyda'r hyfforddai yn wythnosol a sichrau y cedwir cofnod o'r cyfarfodydd hyn
3. Cefnogi'r hyfforddai drwy ddarparu cyfleoedd gwaith wedi'u cynllunio a chynllunio a chynnal arsylwadau o'r hyfforddai yn gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth
4. Asesu gwaith ymarferol yr hyfforddai a chwblhau adroddiadau cynnydd, gan gynnwys argymhellion llwyddo/methu yn unol â gofynion y Brifysgol
5. Cynorthwyo'r hyfforddai i ddatblygu ei waith ymarferol drwy ddarparu adborth
6. Rhoi gwybod cyn gynted â phosibl i'r Rheolwr Tîm a'r Rheolwr Dysgu a Datblygu am unrhyw broblemau yn ymwneud â pherfformiad yr hyfforddai a gweithio gyda phob parti er mwyn datrys unrhyw broblemau
7. Mynychu unrhyw hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl
8. Mynychu Panelau Asesu Ymarfer yn ôl y gofyn

Llofnod:

Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant: ...………………………………………

Rheolwr Tîm ……………………………. Dyddiad:…………………………

Addysgwr Ymarfer: …………………………. Dyddiad:…………………………

Rheolwr Dysgu a Datblygu: ………………….. Dyddiad:………………….........